**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pob Aelod Cynulliad

12 Mai 2017

Annwyl Aelod

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi ein bod am gau dwy heol dros benwythnos 20-21 Mai.

Bydd twnnel Brynglas tua'r dwyrain ar gau o 20:00 ddydd Sadwrn 20 Mai tan 06:00 ddydd Llun, 22 Mai fel rhan o'r rhaglen o waith ailwampio arno. Bydd dargyfeiriad ar hyd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48.

Hefyd, bydd yr A465 ar gau rhwng y Gilwern a Bryn-mawr o 20:30 ddydd Gwener 19 Mai tan 9:00 ddydd Sul, 21 Mai. Diben hyn yw cael parhau â'r gwaith yng Nghwm Clydach ac adeiladu pont droed dros y gerbytffordd fel rhan o Brosiect Deuoli Blaenau'r Cymoedd. Bydd dargyfeiriad swyddogol ar gael.

Byddwn yn gwneud yn siwr bod y cyhoedd yn cael gwybod bod y ddwy heol ar gau ymlaen llaw. Gwnawn hynny trwy'r Unedau Negeseuon Electronig ar y gefnffordd, llythyrau i drigolion lleol a hysbysebion mewn papurau lleol, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Byddwn yn annog pobl i gynllunio ymlaen llaw ac aildrefnu eu cynlluniau teithio os bydd angen.

Rydym yn ddiolchgar i bobl am eu hamynedd wrth inni gynnal y gwaith pwysig hwn.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.